



## Bwrdd Cymwysterau Cymru QWB41

### Cofnodion Drafft Cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021

#### **Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):**

David B Jones (Cadeirydd), Isabel Nisbet, Ellen Donovan, David Jones (DJ), Caroline Burt, Claire Morgan, Jayne Woods, Arun Midha, Robert Lloyd Griffiths, Anne-Marie Duffy, Philip Blaker

#### **Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):**

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Leonie White (LW), Kay Powell (EKP), Tom Anderson (TA), Kerry Davies (KD), Denver Davies (DD), June Jenkins (JJ), Heidi Brown (HB), Helen Murray (HM), Laura Hughes (LH), Dmitrije Sirovica (DM), Joanna Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

#### **Ymddiheuriadau: Dim**

### **1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
- 1.3. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant newydd.

### **2. Cofnodion**

- 2.1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau.
- 2.2. Adroddwyd bod EKP wedi cyfweld ag Angela Maguire Lewis cyn iddi adael y Bwrdd ac y byddai hefyd yn cyfweld ag Arun Midha wrth iddo dynnu tua diwedd ei dymor ar y Bwrdd, yna byddai AS yn cyfweld â'r aelodau a oedd yn gadael yn yr Haf.

### **3. Adroddiad y Cadeirydd**

- 3.1. Dywedodd y Cadeirydd fod y broses penodi i'r Bwrdd wedi'i chwblhau a bod cyngor i'r Gweinidog yn cael ei gwblhau gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y Cadeirydd yn falch o nifer a safon yr ymgeiswyr.
- 3.2. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod i fyfyrion ar brofiad 2020 ac i ystyried materion tymor hwy ac eang a allai effeithio ar waith CC. Nododd y Cadeirydd fod CC yn sefydliad sy'n dysgu ac yn myfyrio a'i fod yn gwella'n barhaus.

Dylid amseru'r cyfarfod ychwanegol i gynnwys cymaint o aelodau presennol y Bwrdd â phosibl, cyn i'r aelodau adael y Bwrdd yn yr Haf, a'r aelodau newydd. Byddai'r cyfarfod yn gyfle i aelodau newydd ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r sefydliad ac annog mewnwelediadau newydd ganddynt.

#### **4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

- 4.1. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol adroddiad ar weithgareddau diwygio. Hysbyswyd y Bwrdd fod y cais y rhoddwyd gwybod amdano yn flaenorol i ohirio cymwysterau HSC Lefel 3 newydd wedi'i ddatrys a phenderfynwyd caniatáu i gymwysterau etifeddiaeth redeg ochr yn ochr â nhw dros flwyddyn o redeg yn gyfochrog. Deallwyd mai ychydig iawn o ganolfannau oedd yn debygol o ddefnyddio'r cymwysterau etifeddiaeth a disgwyldid i'r nifer sy'n dilyn y cymwysterau sydd newydd eu diwygio fod yn uchel.
- 4.2. Mae ystyriaethau tebyg yn cael eu gwneud yn awr ar gyfer y cymhwyster dilyniant mewn adeiladu a'r cymhwyster TGAU mewn technoleg ddigidol. Mae'r adborth cychwynnol gan rhanddeiliaid yn awgrymu bod llawer yn edrych ymlaen at y cymwysterau newydd, ond byddai angen mwy o ymgysylltu â chyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Llongyfarchodd yr aelodau'r tîm a oedd wedi bod yn gweithio ar y maes gwaith hwn.
- 4.3. Cafwyd trafodaeth ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol a'r ymgynghoriad a oedd newydd gael ei lansio. Nodwyd y gallai'r rhai yn y sector y byddai disgwyl iddynt ymateb fod yn cael eu hymestyn gyda'r pwysau eraill. Dywedwyd wrth y Bwrdd y bu ystyriaeth ofalus o'r ymgynghoriad a'i fod wedi'i wneud mor hygyrch â phosibl i gynorthwyo rhai i ymgysylltu â'r cynigion. Er enghraifft, gallai athrawon ystyried cynigion mewn Maes Dysgu a Phrofiad penodol heb orfod gweithio trwy'r ymgynghoriad cyfan. Roedd ymateb y cyfryngau wedi bod yn gadarnhaol ac yn gefnogol, a byddai gweminarau â ffocws arbennig yn cael eu cynnal yn ymdrin â phynciau ar wahân i annog ymgysylltiad â'r cynigion. Mae rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i chynllunio dros gyfnod yr ymgynghoriad.

#### **5. 2021 Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb 2021**

- 5.1. Roedd y Pennaeth Cyllid wedi cyflwyno adroddiad llawn ac wedi egluro bod y Bwrdd wedi derbyn ffigurau ar gyfer y sefyllfa gronnu hyd ddiwedd mis Rhagfyr, ynghyd â rhagolwg hyd ddiwedd y flwyddyn gan dynnu sylw at risgiau hyd ddiwedd y flwyddyn fusnes. Nodwyd y tanwariant cyfredol, a chynhaliwyd trafodaeth fer ar feysydd gwariant ychwanegol. Nid oedd unrhyw bryderon ychwanegol. Roedd y Bwrdd wedi derbyn adroddiad llawn ar gynllun gweithredol 2020 - 2021 a nodwyd nad oedd unrhyw bryderon mawr yn codi.

## 6. Arolwg Pobl

- 6.1. Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm ar ganlyniad yr arolwg pobl a oedd yn gadarnhaol iawn. Dywedodd KW fod canlyniadau'r arolwg wedi'u rhannu â staff a'r undeb llafur ac y byddent yn cael eu trafod yn y cyfarfod partneriaeth nesaf. Roedd y Cyfarwyddiaethau yn ystyried eu canlyniadau a'u dysgu eu hunain, a byddai cyfleoedd datblygu yn cael eu hannog. Nododd yr aelodau y bu rhywfaint o bryder ynghylch dychwelyd i'r swyddfa. Esboniodd KW fod gwaith parhaus yn digwydd, gan weithio mewn partneriaeth â'r undeb llafur, i ystyried y broses dychwelyd i'r swyddfa ac y byddai arolygon pwls pellach yn cael eu cynnal. Nodwyd bod cyfathrebu mewnol wedi gwella, a phriodolwyd hyn yn rhannol i Neuaddau Tref mwy rheolaidd a oedd yn gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith a gweithgareddau cymdeithasol. Bu gweithgareddau i gefnogi lles ac iechyd meddwl hefyd.

## 7. Adolygiad o 2020 gan gynnwys adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau yng Nghymru

- 7.1. Gwahoddodd y Cadeirydd JV i roi adborth y Gweinidog ar yr Adolygiad Annibynnol. Cyfeiriodd JV at ddatganiad y Gweinidog yn diolch i'r Panel Adolygu am eu gwaith. Dywedodd fod y Gweinidog o'r farn ei bod yn bwysig yn ôl ym mis Awst i ddysgwyr ac ymarferwyr gael cyfle i fyfyrto ar y profiad. Dywedodd fod y Gweinidog yn teimlo bod gan yr adroddiad werth o ran clywed llais y dysgwr a helpu i lunio'r dull ar gyfer 2021. Erbyn hyn roedd awydd i'r Sector Addysg weithio gyda'i gilydd wrth symud ymlaen. Roedd y Gweinidog yn cydnabod fod y dull gwahanol ar gyfer 2021 wedi'i lunio gydag ôl-ddoethineb a chymorth y gwersi a ddysgwyd ac nad oedd cymhlethdod ac anawsterau ffyrdd o weithio yn 2020 wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn yn yr adroddiad. Roedd y Gweinidog yn awyddus i gydnabod y gwaith caled a wnaed wrth ddarparu ateb mewn amgylchiadau heriol iawn.
- 7.2. Ymunodd DJ â'r cyfarfod.
- 7.3. Rhoddodd PB drosolwg o ymgysylltiad Cymwysterau Cymru gyda'r Adolygiad Annibynnol. Adroddodd y bu tri chyfarfod i gyd. Cyfarfod rhagarweiniol cynnar oedd y cyntaf, pwrpas yr ail gyfarfod ym mis Hydref oedd cynghori Cymwysterau Cymru ar y canfyddiadau interim ac roedd y trydydd cyfarfod ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Dywedodd y gofynnwyd i'r panel a oedd cyfle i gywiro gwallau ffeithiol yn yr adroddiad terfynol cyn ei gyhoeddi, ond nid oedd y panel yn barod i ystyried newidiadau. Yn dilyn hynny, cywirwyd rhai o'r gwallau ffeithiol hyn ar gais CBAC.
- 7.4. Adroddodd na dderbyniodd Cymwysterau Cymru unrhyw gwestiynau manwl gan y panel ar y dystiolaeth a gyflwynwyd nac unrhyw gyfle i gynnig myfyrdodau ar ganfyddiadau'r panel wrth iddynt eu datblygu. Nid oedd y panel wedi darparu unrhyw gyfleoedd i gyflwyno gwrth-safbwyntiau ynghylch y safbwyntiau yr oeddent yn eu datblygu yn yr adroddiad.

- 7.5. Adroddodd PB mai cymharol ychydig o sylw a gafwyd yn y cyfryngau i'r adroddiad ac mai ychydig iawn o adborth a gafwyd gan randdeiliaid mewn ymateb iddo. Cyflwynwyd sylwadau i Cymwysterau Cymru gan ASCL.
- 7.6. Adroddodd PB y cafwyd cyngor cyfreithiol nad oedd unrhyw beth yn yr adroddiad yr oedd angen ei wrthbrofi'n gyhoeddus ond dylid cofnodi cywiriadau yn fewnol rhag ofn y byddai unrhyw adolygiad pellach.
- 7.7. Cynigiodd PB dri opsiwn fel dulliau mewn ymateb i'r adolygiad annibynnol:
- Rhoi ymateb llawn a manwl
  - Rhoi ymateb lefel uchel
  - Peidio ag ymateb o gwbl.
- 7.8. Cynigiodd y Cadeirydd llythyr preifat at Louise Casella gyda chopi at y Gweinidog a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd am eu safbwyntiau ar ba bwyntiau allweddol y dylid eu cynnwys yn y llythyr.
- 7.9. Trafododd aelodau'r bwrdd y pwyntiau allweddol i'w cynnwys yn y llythyr at Louise Casella. Cytunwyd i anfon ymateb lefel uchel, positif ei naws, cadw at ffeithiau ac osgoi iaith emosiynol a derbyn beirniadaeth lle bo hynny'n rhesymol. Cytunwyd y dylai'r ymateb fod yn canolbwyntio ar ddysgwyr yng Nghymru.
- 7.10. Cytunodd aelodau'r bwrdd y dylid cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol yn y llythyr ymateb:
- Diffyg ymgysylltiad ar ran y panel adolygu
  - Diffyg cydnabyddiaeth o'r cyfyngiadau amser a'r straen yr oedd rhaid gweithio oddi tano ar y pryd
  - Diffyg cydnabyddiaeth o broffesiynoldeb yn Cymwysterau Cymru ai dynnu sylw at waith caled, gallu a phroffesiynoldeb y tîm dan sylw
  - Ni fyddai wedi bod yn bosibl cymedroli Graddau Asesu Canolfannau ar ôl eu cyflwyno - gofynnwyd i Benaethiaid canolfannau lofnodi'r Graddau Asesu Canolfannau fel rhai gwir a chywir
  - Nodi bod Cymwysterau Cymru yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach ar gyfer unrhyw adolygiad yn y dyfodol ynghylch sut y cyflawnwyd ei rôl
  - Nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn gwrandao ar farn dysgwyr cyn gwneud ei benderfyniadau annibynnol fel rheolydd.
- 7.11. Cytunodd aelodau'r bwrdd ar ymateb preifat i Louise Casella gyda chopi i'r Gweinidog.
- 7.12. Cytunodd aelodau'r bwrdd y dylid cofnodi sylwadau ar bob un o argymhellion yr adolygiad annibynnol yn fewnol a'u rhannu â Llywodraeth Cymru hefyd.
- 7.13. Cytunodd aelodau'r bwrdd i ddirprwyo proses lofnodi'r llythyr i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol.

**CCB41.7 Gweithred: Anfon ymateb preifat i'r Adolygiad Annibynnol at Louise Cassella yn cwmpasu'r pwyntiau allweddol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Anfon copi at y Gweinidog gyda llythyr eglurhaol. Y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol i lofnodi'r llythyr.**

## 8. Adroddiad ar 2021

- 8.1. Diweddarodd PB y Bwrdd ar ddatblygiadau ar gyfer trefniadau ar gyfer 2021. Adroddodd fod disgwyl cyfarwyddyd gan y Gweinidog yn fuan a byddai Cymwysterau Cymru yn ymateb i'r cyfeiriad ac yn cofnodi'r risgiau a'r materion sy'n gysylltiedig â'r dull y cytunwyd arno.
- 8.2. Dywedodd fod ffrydiau gwaith yn cael eu dyrannu i dimau. Roedd y rhain yr un ffrydiau gwaith ag yr oedd y DDAG yn rhannu iddynt. Y rhain oedd Cydraddoldeb a Llais Dysgwr, Datblygu'r Fframwaith Asesu, Sicrwydd Ansawdd, Cymorth Dysgu Proffesiynol a Llwyth Gwaith ac Apeliadau. Roedd darn o waith hefyd ar Ymgeiswyr Preifat ac roedd Cymwysterau Cymru yn edrych ar 2022 ymlaen i sefydlu dull o adfer safonau. Dywedodd fod arweinwyr ar gyfer pob ffrwd waith ac y byddai'r grwpiau DDAG yn ymateb i fewnbynnau gan Cymwysterau Cymru. Byddai DDAG felly'n dod yn grŵp rhanddeiliaid allweddol ar gyfer Cymwysterau Cymru a CBAC wrth i faterion polisi a gweithredol manwl gael eu hystyried.
- 8.3. Dywedodd y byddai cyfarfodydd y DDAG dros yr wythnosau nesaf yn cael eu cynnal o leiaf yn wythnosol ar fore Gwener. Adroddodd fod Cymwysterau Cymru yn gweinyddu'r is-grwpiau a bod Llywodraeth Cymru yn edrych i wahodd mwy o Benaethiaid ac arweinwyr colegau i'r grwpiau.
- 8.4. Esboniodd PB y byddai llwyth gwaith "yn cynyddu'n sylweddol" hyd at y Pasg i'r grwpiau fel bod canolfannau yn gallu rhoi'r trefniadau ar waith yn ystod Tymor yr Haf.
- 8.5. Esboniodd fod awydd mawr am wybodaeth gan ganolfannau a bod y gwaith yn dilyn dull "ystwyth" fel bod modd rhyddhau gwybodaeth allweddol, fel arweiniad i ganolfannau cyn gynted â phosibl.
- 8.6. Adroddodd fod ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ddiweddar wedi digwydd gyda Chyfarwyddwyr Addysg Iledled Cymru, Grŵp Cyfeirio Penaethiaid, undebau dysgu, sefydliadau cynrychioliadol eraill a grŵp rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru. Cafwyd sesiynau briffio hefyd i Benaethiaid yng Nghymru.
- 8.7. Adroddodd fod rhai tensiynau yn amlwg rhwng gwahanol safbwyntiau rhanddeiliaid (fel pryderon ynghylch llwyth gwaith addysgu gan undebau dysgu) ond roedd yn bwysig cydbwysu'r risgiau.
- 8.8. Adroddodd y byddai holiadur dysgwr i gasglu barn dysgwyr a bod bwriad hefyd i ymgysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru yn fwy gweithredol er mwyn deall llais y dysgwr yn well.

- 8.9. Adroddodd fod Sefydliad Siartredig yr Aseswyr Addysgol wedi datblygu rhaglen hyfforddi pedair uned (dilysrwydd, safoni a chymedroli, defnyddio data wrth ddod i ddyfarniadau cyfannol am gyrhaeddiad dysgwr a phedwaredd uned i'r Corff Dyfarnu ddarparu ei hyfforddiant). Adroddodd ymhellach yr hoffai fynd â'r cynnig hyfforddi i CBAC a'r DDAG yr wythnos ganlynol. Dywedodd y gallai hyn olygu symud ymlaen ac y byddai angen i Cymwysterau Cymru felly ymgymryd â gwaith caffael yn gyflym.
- 8.10. Yna gofynnodd PB am unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Bwrdd ar y diweddariad.
- 8.11. Dywedodd aelodau'r bwrdd fod y berthynas â'r DDAG a fwriadwyd yn wreiddiol fel rôl ymgynghorol ac arsylwi wedi newid. Ymatebodd PB fod y grŵp wedi dod yn randdeiliad pwysig gyda dealltwriaeth dda o'r materion dan sylw. Rhoddodd LH gyngor cyfreithiol ar y mater a nododd ei bod yn hyderus y gellid gwneud cofnod o sut roedd Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'r grŵp.
- 8.12. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd datrys anghydfod wedi'i gynnwys yn y ffrydiau gwaith. Crynhodd LH y cyngor cyfreithiol a roddwyd ar y maes hwn. Amlinellodd y risgiau o roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer datrys anghydfod. Esboniodd bod yr offer rheoleiddio eisoes gan Cymwysterau Cymru a bod gan CBAC y swyddogaethau angenrheidiol i ddelio â datrys anghydfodau heb ychwanegu haen arall o drefniadau.
- 8.13. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd disgwyl y byddai CBAC yn cymeradwyo Sicrwydd Ansawdd prosesau ar gyfer pob canolfan. Ymatebodd PB y rhagwelwyd y byddai CBAC yn sicrhau ansawdd fesul canolfan. Esboniodd mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r canllawiau cyffredinol ymhen rhyw wythnos, a byddai'r fframweithiau pwnc unigol yn cael eu cyhoeddi erbyn 22 Chwefror fel y gallai canolfannau weithio tuag at gyflwyno eu Cynlluniau Asesu erbyn y Pasg. Byddai CBAC wedyn yn cymeradwyo'r rhain ym mis Ebrill.
- 8.14. Trafododd aelodau'r bwrdd eu bod wedi teimlo dan rywfaint o bwysau i wneud y penderfyniad i newid y dull asesu ar 18 Ionawr. Cawsant gyngor cyfreithiol a chytunwyd bod y pwysau yn dod o'r amgylchiadau allanol sef nad oedd canolfannau ar agor i bob dysgwr a bod eu penderfyniadau yn ddilyffethair.
- 8.15. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am allu'r tîm yn Cymwysterau Cymru i gyflawni'r "cynnydd sylweddol" o waith sy'n ofynnol hyd at y Pasg a pha gymorth neu adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen. Ymatebodd PB fod pobl yn gweithio oriau hir iawn. Dywedodd mai hwn oedd y pumed tro yr ail-gynlluniwyd trefniadau ar gyfer 2021. Esboniodd fod sefydlu ffrydiau gwaith yn galluogi dod â mwy o bobl i mewn a'u defnyddio. Dyma fyddai prif flaenoriaeth y sefydliad, ac roedd yn barod i dynnu cydweithwyr o feysydd gwaith eraill i mewn i waith 2021 pe bai angen. Pwysleisiodd y Cadeirydd pe bai angen adnoddau ychwanegol byddai'r Bwrdd yn barod i wneud eu rhan i hwyluso hynny.

- 8.16. Gofynnodd aelodau'r bwrdd ynghylch ystyriaeth ffioedd y Cyrff Dyfarnu. Ymatebodd PB y bu trafodaeth ar hyn eisoes gyda CBAC ac roedd y potensial am gymorth ariannol gan y Llywodraeth hefyd yn cael ei ystyried.
- 8.17. Gofynnodd aelodau'r bwrdd ynghylch ystyriaeth ymgeiswyr preifat. Ymatebodd PB y byddai'r DDAG yn derbyn papur opsiynau ar hyn.
- 8.18. Gofynnodd aelodau'r bwrdd ynghylch ystyriaeth dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig. Ymatebodd PB y byddai hyn yn cael sylw yn y llif gwaith Cydraddoldeb. Adroddodd mai'r bwriad oedd ymgysylltu'n weithredol â grwpiau rhanddeiliaid ar hyn. Er enghraifft, bu pryderon ynghylch dysgwyr sydd â nam ar eu clyw/byddar sy'n ei chael hi'n anoddach ymgysylltu â dysgu o bell.
- 8.19. Yna darparodd JR gyflwyniad sleidiau ar themâu allweddol yr ymateb arfaethedig i gyfarwyddyd y Gweinidog. Manylodd ar faterion yn ymwneud â themâu dilysrwydd, dibynadwyedd, hydrinedd, rheoli rhagfarn a materion cydraddoldeb, cymaroldeb a phryderon eraill.
- 8.20. Amlygodd nad oedd unrhyw fodd effeithiol i reoli canlyniadau ac felly byddai chwyddiant gradd yn risg. Mae rhanddeiliaid yn tynnu casgliadau o'r graddau a byddai angen iddynt wybod a oedd bylchau yng ngwybodaeth y dysgwyr.
- 8.21. Amlygodd y gallai fod anghysondebau o ran graddio ar draws canolfannau gan y byddai asesiad gwahanol yn cael ei ddefnyddio. Byddai'n hanfodol i ysgolion a cholegau gadw cofnod gwneud penderfyniadau fel rhesymeg dros y dystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt. Y bwriad oedd y byddai'r fframweithiau asesu yn sicrhau rhywfaint o gysondeb o ran dyfarniadau canolfannau. Gallai fod problemau gydag asesiadau yn cael eu cymryd ar-lein oherwydd efallai na fydd chwarae teg i ddysgwyr o ran yr amodau y cymerwyd yr asesiadau oddi tanynt. Esboniodd y gallai fod problemau lle'r oedd dysgwyr wedi cymryd asesiadau yn gynharach yn y flwyddyn heb fod yn ymwybodol y byddent yn rhan o'u gradd. Esboniodd ymhellach y byddai "meddwl y gorau" gan athrawon yn rhoi potensial ar gyfer chwyddiant gradd. Esboniodd sut na fyddai'n bosibl cymedroli canlyniadau ar lefel genedlaethol ac felly roedd hynny wedi'i ddiystyru.
- 8.22. Amlygodd y byddai llwyth gwaith cynyddol i athrawon. Roedd risg uwch y byddai ffocws yn symud tuag at asesiadau yn hytrach nag addysgu a dysgu a allai effeithio ar les dysgwyr.
- 8.23. Amlygodd nad oedd cofrestriadau ar gyfer ymgeiswyr preifat wedi'u gwneud eto (yn wahanol i'r sefyllfa yn 2020). Felly gall fod yn anodd i ymgeiswyr preifat ddod o hyd i ganolfan gan y gallent fod yn amharod i dderbyn cofrestriadau gan ymgeiswyr preifat. Byddai angen sefydlu prosesau cymorth.
- 8.24. Amlygodd y byddai apelïadau yn ychwanegu at lwyth gwaith staff y ganolfan ac y byddai potensial ar gyfer gwrthdaro lleol.

- 8.25. Nododd fod CBAC yn datblygu rhestr wirio ar-lein i sicrhau bod canolfannau yn ystyried yr holl ystyriaethau ar gyfer dysgwyr o ran trefniadau mynediad. Esboniodd nad oedd data ar gael i CBAC ar hyn o bryd a fyddai'n eu galluogi i fonitro am unrhyw newid yn y bylchau cyrhaeddiad ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Gofynnwyd i ysgolion a cholegau ystyried eu dyletswyddau cydraddoldeb wrth gynhyrchu Graddau a Bennir gan Ganolfannau.
- 8.26. Amlygodd na allai'r model reoli ar gyfer safonau perfformiad felly gallai fod gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng awdurdodaethau.
- 8.27. Amlygodd fod cydymffurfriad â Diogelu Data wedi'i ystyried a bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r tîm cyfreithiol ac ar draws rheoleiddwyr i gefnogi canolfannau gyda hyn. Roedd bwriad hefyd i ymgysylltu â'r ICO ar hyn i sicrhau cydymffurfriad â GDPR.
- 8.28. Amlinellodd faterion yn ymwneud ag amseriad diwrnodau canlyniadau.
- 8.29. Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Bwrdd am adborth ar yr ymateb arfaethedig i'r cyfarwyddyd.
- 8.30. Gwnaeth aelodau'r bwrdd sylwadau ar ddefnyddio Arholwyr Allanol mewn Addysg Uwch fel model a awgrymir ar gyfer sicrhau ansawdd i sicrhau bod dulliau tebyg yn fras yn cael eu defnyddio.
- 8.31. Awgrymodd aelodau'r bwrdd y dylid ystyried DPAAu cenedlaethol a defnyddio dangosyddion ar gyfer cydraddoldeb y gellid adrodd yn eu herbyn. Ymatebodd JR na fyddai'n bosibl monitro am faterion Cydraddoldeb yn ystod y broses ond byddai llawer y gellid adrodd arno ar ddiwedd y broses.
- 8.32. Dywedodd aelodau'r bwrdd fod methu â chymedroli canlyniadau ar lefel genedlaethol yn fater allweddol y byddai angen tynnu sylw'r Gweinidog ato.
- 8.33. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am senario lle credai CBAC fod canlyniadau canolfan yn anghywir. Esboniodd JR mai bwriad CBAC fyddai mynd yn ôl i'r ysgol a chael sgwrs broffesiynol gyda nhw. Eglurodd na fyddai CBAC yn newid y graddau. Esboniodd y byddai gwiriadau gweinyddol ar gyfer tystiolaeth dysgwyr i sicrhau bod y cofnodion gwneud penderfyniadau yn cyfateb i'r dystiolaeth. Byddai potensial i ddal gradd yn ôl a rhoi gradd "Q" pe bai amheuaeth o gamymddwyn. Roedd cyhoeddi graddau Q am resymau eraill yn cael ei ystyried.
- 8.34. Gwnaeth aelodau'r bwrdd sylwadau ar botensial ysgolion yn cyhoeddi GBGau i adlewyrchu cynigion prifysgol. Ymatebodd PB y gallai GBGau ar gyfer Lefel A hefyd adlewyrchu GAGau a roddwyd ar gyfer cymwysterau lefel UG yn 2020. Adroddodd y byddai Cymwysterau Cymru yn cael mynediad at y data graddau a ragwelir gan UCAS ar geisiadau hyd at 28 Ionawr. Gallai'r data hwn roi syniad o ganlyniadau ar Safon Uwch.
- 8.35. Roedd y Bwrdd yn gyffyrddus â'r pwyntiau allweddol a amlinellwyd yn y cyflwyniad i fod yn sail i'r ymateb i gyfarwyddyd y Gweinidog.



**QWB41.8 Gweithred: Ymateb i'w anfon i gyfarwyddyd y Gweinidog yn cwmpasu'r pwyntiau allweddol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. I'w lofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.**

## **9. Diweddariad Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

- 9.1. Dechreuodd LW trwy amlinellu'r cefndir gwleidyddol sy'n symud yn gyflym i'r gwaith cyfathrebu.
- 9.2. Cyflwynodd LW esboniad cynhwysfawr o'i hagwedd at y gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu. Cyflogwyd cwmni allanol i ddatblygu cynnwys gyda'r bwriad o dargedu cynulleidfaoedd penodol a nodwyd trwy bersonas.
- 9.3. Byddai'r strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyson a gweladwy i ysgogi hyder. Bu cydweithio â Llywodraeth Cymru a CBAC er mwyn coreograffu allbwn. Roedd y Gweinidog wedi tynnu sylw at lesiant dysgwyr a chyhoeddwyd llythyr at ddysgwyr; roedd ymgysylltiad â'r Comisiynydd Plant ac roedd grŵp cynghori dysgwyr yn cael ei sefydlu. Byddai strategaeth gyfathrebu'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn eu cyfarfod nesaf. Roedd dulliau mewnol o weithio yn cael eu hadolygu a gwelliant parhaus yn cael ei weithredu, gan dynnu ar ganfyddiadau'r archwiliad mewnol. Byddai dull OASIS yn cael ei ddilyn, byddai adborth yn cael ei geisio drwyddo draw a byddai gwerthusiad o'r allbwn. Roedd strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn cael ei gweithredu.
- 9.4. Gofynnodd yr aelodau am waith gyda rhanddeiliaid. Roedd CC yn gweithio gyda rhanddeiliaid. Roedd terminoleg gyffredin yn ffactor a godwyd gan yr Adolygiad Annibynnol ac roedd hyn yn cael ei ddilyn gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y BBC wedi defnyddio'r cyhoeddiadau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ar gyfer eu sylw. Amlygwyd magu hyder ac anogwyd cael negeseuon yn syml.

## **10. Tystysgrif Her Sgiliau Uwch / Bagloriaeth Cymru**

- 10.1. Ymunodd JJ a HB â'r cyfarfod a chyflwyno'r eitem. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr ymgynghoriad wedi digwydd a bod cefnogaeth ddigonol i fwrw ymlaen â'r holl gynigion. Byddai'r fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch cyfredol yn dod i ben trwy symud i gymhwyster annibynnol newydd. Cytunodd yr ymatebwyr ar yr holl gynigion. Cafwyd 428 o ymatebion a chynhwyswyd manylion llawn y rhain gan gynnwys ystyried yr ymatebion yn y papur.
- 10.2. Cynigiwyd y dylid enwi'r cymhwyster newydd yn Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3). Dewiswyd hwn gan fwrdd y prosiect ar ôl ystyried barn ymatebwyr a gweithdy bwrdd prosiect. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y gair Bagloriaeth yn cael ei ffafrio gan ymatebwyr.
- 10.3. Atgoffwyd yr aelodau bod cymeradwyaeth i gyfyngu ar y cymhwyster wedi'i roi ym mis Mai. Cynigiwyd a chytunwyd ar eiriad yr hysbysiad bwriad i gyfyngu, y derbyniwyd cyngor cyfreithiol arno.

10.4. Cafwyd trafodaeth ar bwyntiau a godwyd a rhoddwyd sicrwydd. Ni fyddai unrhyw ofyniad i basio'r holl gydrannau i ennill gradd a oedd yn dilyn y dull ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a TGAU. O ran cynnwys a chymaroldeb roedd CC wedi gwirio gydag UCAS na fyddai unrhyw effaith, dim ond gofyn wnaeth UCAS na fyddai unrhyw newid i'r oriau dysgu dan arweiniad ac na fyddai unrhyw newid i'r dull graddio fel na fyddai unrhyw newid i dariff pwyntiau UCAS. Mae cael cyd-destunau dysgu penodol yn seiliedig ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau llesiant Cymru, yn golygu bod deunydd dwyieithog ar gael yn rhwydd y gall dysgwyr ei ddefnyddio wrth ystyried materion byd-eang cymhleth er mwyn datblygu eu Sgiliau Integredig

### **Crynodeb:**

- i. nodwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad a'n hymateb arfaethedig i sylwadau'r ymgynghoriad, fel y'u cynhwysir yn y Ddogfen Dadansoddiad o'r Canfyddiadau Ymgynghori
- ii. cytunwyd ar ein penderfyniad i fwrw ymlaen â'r holl gynigion fel y'u nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a'n dull i'w gymryd ar gyfer yr Adroddiad Penderfyniadau Ymgynghori
- .iii. cytunwyd y dylid ychwanegu cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (lefel 3) newydd at y Rhestr Cymwysterau â Blaenoriaeth a chytunwyd ar ein cais i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am gytundeb i wneud hynny.
- iv. cytunwyd ar y geiriad arfaethedig ar gyfer yr Hysbysiad Bwriad i Gyfyngu

## **11. Prydles Swyddfa**

11.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem yn atgoffa aelodau eu bod wedi derbyn papur ar y brydles yn y cyfarfod diwethaf, lle gofynnwyd am wybodaeth bellach. Cyflwynodd AS bapur gyda'r wybodaeth ychwanegol a safbwyntiau pellach gan y weithrediaeth. Y dewis a ffafriwyd oedd archwilio estyniad i'r brydles yn seiliedig ar sefydlogrwydd i staff, byddai'r gost symud yn uchel iawn ac roedd yr adeilad yn ofod hyblyg a fyddai'n diwallu anghenion tymor hir, gan gynnwys patrymau gwaith a allai fod yn wahanol ar ôl y pandemig. Gallai'r lle hefyd fod ar gael i gyrff eraill a noddir a fyddai'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio mewn hybiau yn y dyfodol. Nodwyd mai hwn oedd yr unig adeilad a noddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ardal Casnewydd. Cytunodd yr aelodau i drafod estyniad i'r brydles.

## **12. UFA**

- 12.1 Nodwyd y byddai cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar risg yn cael ei gynnal ar 9 Chwefror.
- 12.2 Gofynnodd PB am gadarnhad y gallai'r dull asesu sy'n cael ei roi ar waith ar gyfer cymwysterau cyffredinol gael ei adlewyrchu yn y Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol Cymeradwy eraill. Cytunwyd ar hyn.

- 12.3 Holodd yr aelodau am effaith yr etholiad ym mis Mai neu oedi i'r etholiad. Dywedodd PB mai barn y llywodraeth oedd nad oedd gweithgaredd CC yn bryder mewn perthynas â'r cyfnod cyn yr etholiad.
- 12.4 Holodd yr aelodau beth fyddai'r dull ar gyfer 2022. Cynigiodd PB y dylid cyflwyno trefniadau ar gyfer addasiadau a ddatblygwyd ar gyfer 2021 yr haf diwethaf. Roedd hyn yn bragmatig ac yn synhwyrol ac eisoes ar gael.

**Crynodeb:**

**Bydd yr ymagwedd at y Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol Cymeradwy yn adlewyrchu'r dull ar gyfer cymwysterau cyffredinol.**

Diwedd

DRAFT